# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 3 Rhagfyr 2019

Neuadd Rhydlewis 7.30 y.h.

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng Mark Davies (Cadeirydd)<br>Cyng Julie Davies<br>Cyng Ceri Jones | Cyng Roger Davies<br>Cyng Evan John Jones<br>Cyng Maldwyn Lewis |
| **Ymddiheuriadau** | Cyng Owenna Davies<br>Cyng Teifi Evans | Cyng Emyr Jones<br>Cyng Llyr Evans |
| **Clerc** | Lynda Williams | |

| Eitem ar yr Agenda | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 1. **Ymddiheuriadau** | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng Owenna Davies; Cyng Teifi Evans; Cyng Llŷr Evans a Chyng Emyr Jones | | |
| 2. **Cadarnhau cofnodion** | • Cofnodion 7/11/19 – Cadarnhawyd gan Julie Davies; eiliwyd gan Evan John Jones.<br>• Cofnodion 31/10/19 – Cadarnhawyd gan Maldwyn Lewis, eiliwyd gan Ceri Jones | | |
| 3. **Datgelu Buddiannau** | Datgelwyd budd gan CJ yn eitem 8 ar yr agenda – Cais cynllunio A190929; llanwyd a llofnodwyd y ffurflen berthnasol | | |
| 4. **Materion yn Codi o'r cofnodion** | • Mae angen dychwelyd ffurflenni llofnodwyr banc i Nat West<br>• Roedd ML ac OD wedi mynd i Nat West gyda'r clerc newydd ar 8/11, ac er y llanwyd y ffurflenni (a holwyd eto am y mater ar 29/11), nid oes unrhyw weithredu wedi digwydd.<br>Trosglwyddwyd £2,000 i'r cyfrif cyfredol<br>• Golau stryd ym Mrongest – mae bellach yn gweithio.<br>• Lleolwyd Mainc yng Nghapel Cynon. Bydd MD yn tacluso'r safle. Trafodir rhestr o'r meinciau yn ystod y cyfarfod ym mis Ionawr<br>• Mae arwydd pentref Maesllyn wedi cael ei osod erbyn hyn.<br>• Trafodir lloches bws Ffostrasol yn ystod y cyfarfod nesaf. | JD & LIE<br><br>Clerc<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>OD i roi diweddariad | |
| **5. Adroddiad a Diweddariad gan y Cynghorydd Sir** | • Cyfrifiad – Cafwyd llythyr o ddiolch am gymryd rhan ym mheilot y Cyfrifiad. Dylid anfon unrhyw adborth at 2021Census.Engagement@ons.gov.uk<br>• Roedd hi'n galonogol gweld y gefnogaeth leol yn y digwyddiad 'Goleuadau Nadolig' a gynhaliwyd yng | | |

Nghoed-y-bryn ar 1/12. Roedd y gymuned leol wedi trefnu gosod coeden Nadolig, gan sicrhau bod yr ardal o gwmpas y sgwâr yn cael ei chlirio.

- Eisteddfod 2020 – cyflawnwyd y targed o £330,000, a bwriadir ei ymestyn i £400,000 nawr.
- Ar 21 Tachwedd, cynhaliwyd digwyddiad gan CS Ceredigion ar gyfer gofalwyr yn y gymuned – Diwrnod Hawliau Gofalwyr. Mae'r digwyddiad blynyddol hwn yn darparu gwybodaeth i ofalwyr megis cyllid, cymorth ac ati.
- Mae Estyn wedi canmol Ysgol Bro Teifi am sefydlu system i fonitro a chynorthwyo plant sydd ag anghenion arbennig – Clwb Cwtsh.
- Bydd parcio am ddim ar gael yn holl feysydd parcio Ceredigion am y 3 dydd Sadwrn cyn y Nadolig.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6. **Gohebiaeth** | Ffurflen y praesept – dosbarthwyd copi i bawb er mwyn ei hystyried; trafodir y mater hwn yn ystod y cyfarfod a gynhelir ym mis Ionawr | Clerc | |
| **7. Ariannol** | Mae MD wedi cael cadarnhad gan Ashmole & Co nad yw'r clerc yn dymuno bod yn rhan o'r cynllun pensiwn.<br>CThEM - £42.20<br>Cyflog y Clerc – Ffigwr anghywir gan Ashmole, i'w gywiro erbyn y cyfarfod nesaf - £169.20<br>Cliand Computers - £659.99 | | |
| **8. Cais Cynllunio** | A190929 – Clydfan, Rhydlewis. (Gadawodd CJ y cyfarfod yn ystod y drafodaeth).<br><br>Ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiad, fodd bynnag, nodwyd bod print y llawr yn dyblu maint y breswylfa. | Y clerc i ddiweddaru'r dudalen ar y we ynghylch cynllunio | Cyn gynted ag y bo modd |
| **9. Materion Ardal** | • Nid yw Lamp Stryd Coed-y-bryn (ger Tŷ'r Capel) yn gweithio. | Y clerc i hysbysu S Bray | |
| | • Nodwyd bod y goleuadau stryd o gwmpas y sgwâr yng Nghoed-y-bryn yn wael.<br>• Trwsio wal yn Rhydlewis (lle y lleolir hysbysfwrdd y Cyngor) – mae hwn wedi bod yn mynd rhagddo ers tro. | Y clerc i geisio diweddariad | |
| | • Rhiw Blaenwern – mae'n ymddangos bod dŵr wyneb yn broblem, ac mae wedi gwaethygu yn ddiweddar.<br>• Cerddwyr Rhydlewis – Cafwyd ymholiad am y llwybrau cyhoeddus a fu ar agor yn flaenorol. Os bydd y cyngor yn ailagor llwybrau, byddai'r cerddwyr yn fodlon eu cynnal a'u cadw. Mae ML eisoes wedi siarad gyda'r Swyddfa Llwybrau – mae'n aros am ateb. | Y clerc i adrodd | |
| **10. Cynghorydd Newydd** | Ni chafwyd unrhyw ymatebion hyd yn hyn | | |
| **11. Ffurflenni Banc** | Dim ond 5 llofnodwr sydd ar hyn o bryd. Ni ychwanegwyd MD a CJ er bod ffurflenni wedi cael eu llenwi a'u hanfon ymlaen i'r Banc. | Y clerc i gysylltu â'r banc | |

| | | |
|---|---|---|
| **12. Etholiad** | Nid oes unrhyw broblemau gyda'r ddwy Orsaf Bleidleisio yn CC Troedyraur (neuaddau Coed-y-bryn a Rhydlewis) | |
| **13. Ceisiadau Ariannol** | Dosbarthwyd tair ffurflen (ar ôl cael cais) – Eglwys St Michael; Neuadd Rhydlewis; ac Eisteddfod Rhydlewis. Dychwelwyd dwy ffurflen yn barod. Trafodir yr eitem yn ystod y cyfarfod ym mis Ionawr.<br>Ychwanegir y ffurflen gyfredol i'r wefan. | Y clerc i ychwanegu hyn i agenda cyfarfod mis Ionawr |
| **14. Ffurflenni Grant** | Trafodwyd dan Eitem 13 | |
| **15. Archwiliad** | Ni chafwyd ymateb gan Derrick Evans er gwaethaf y ffaith y cafwyd negeseuon e-bost a galwadau ffôn niferus | ML |
| **16. Eitemau i'w trafod yn ystod y cyfarfod nesaf** | Materion Lleol: Penodi cynghorydd newydd; Archwiliad; Ffurflenni Banc; Ceisiadau Ariannol; Archwilydd Mewnol; Ffurflen Praesept | |
| **17. Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf** | Neuadd Ffostrasol, 7 Ionawr 2020 am 7:30yh | |

Llofnodwyd (Cadeirydd) ________________________________

Llofnodwyd (Is-gadeirydd ________________________________